

‘Rhedeg yr yrfa sydd o’n blaen...’

Dydd o ras a dechrau blwyddyn

Wrth anfon fy nymuniadau am flwyddyn newydd dda atoch, yr wyf yn gwneud hynny gan sylweddoli ein bod yn wynebu heriau amrywiol fel Enwad, yn wir fel Enwadau'r flwyddyn hon eto. Yr oeddwn mewn cyfarfod ddechrau Rhagfyr lle cyflwynwyd darlun o'n patrwm ystadegol, a'r ffaith frawychus fod bron i hanner ein heglwysi bellach gyda llai na 20 o aelodau. Mae Cymru, fel y Deyrnas Unedig yn wynebu gwacáu lleoedd o addoliad, a hyn yn arwain at adeiladau fu gynt yn lleoedd o hanes ysbrydol i lawer, bellach yn cau ac yn mynd yn angof.

Yr oeddwn yn darllen ystadegau'n ddiweddar a gyhoeddwyd gan Peter Brierley oedd yn dangos Eglwys Loegr heb agor yr un adeilad newydd yn y degawd diwethaf, ond wedi cau 324. Agorodd y Methodistiaid Wesleyaidd 4 a chau 813. Yn hanes y Bedyddwyr, bu iddynt agor 1 a chau 76, tra ein bod ni fel Presbyteriaid ar draws y grwpiau gwahanol wedi agor 9 a chau 183. Ag eto, nid dyma'r darlun llawn. Agorodd y Pentecostaliaid 640 a chau 2. Ymhlith yr

eglwysi 'newydd' sydd yn fras yn geidwadol eu diwinyddiaeth, agorwyd cyfanswm o 1,937 a chaewyd 38. Canlyniad hyn yw bod 49,727 o eglwysi yn y Deyrnas Unedig yn 2005 a disgwyllir hyn i gynyddu i 51,275 yn 2020. Nid bod hyn yn newyddion chwaith, yr oedd y Parch. David Charles yn medru tystio yn y ddeunawfed ganrif fod yr



<https://covapp.vancouver.ca/PublicArtRegistry/ArtworkDetail.aspx?ArtworkID=182>

Dyfalbarhad

Ar y 7fed o Awst 1954 yng Ngemau'r Ymerodraeth a'r Gymanwlad yn Vancouver. cyfarfu Roger Bannister y rhedwr o Loegr â John Landy o Awstralia. Roedd y ddau ohonynt wedi llwyddo i greu record newydd gan redeg milltir mewn llai na phedair munud. Hysbysebwyd y cyfarfyddiad fel y 'Miracle Mile'.

Cychwynnodd y ras ac roedd Landy ar y blaen ac yn hyderus iddo ennill y blaen ar Bannister. O fewn 90 llath i'r terfyn edrychodd Landy dros ei ysgwydd er mwyn cael gwell golwg ar safle Bannister ac yn yr union eiliad honno manteisiodd Bannister ar y sefyllfa gan oddiweddyd John Landy ac ennill y ras. Disgrifiodd Bannister y digwyddiad fel hyn,

'Wrth i mi weld Landy yn edrych dros ei ysgwydd rhoddodd hwn hyder i mi ymgeithio ac ennill y ras.'

Lluniodd Jack Harman ddelw efydd o'r digwyddiad a'i osod yn Vancouver.

Mewn bywyd mae siom o wahanol fath yn peri i ni edrych yn ôl dros ein hysgwydd. Gall fod yn reswm ein bod yn methu manteisio ar y cyfleoedd sydd o'n blaen neu yn rwystr i ni rhag symud yn ein blaen.

Felly gadewch i ni gael gwared â phopeth sy'n ein dal ni'n ôl, yn arbennig y pechod sy'n denu'n sylw ni mor hawdd. Gadewch i ni fod yn benderfynol o ddal ati, a rhedeg y ras sydd o'n blaenau i'w diwedd. Rhaid i ni hoelio'n sylw ar Iesu – fe ydy'r pencampwr a'r hyfforddwr sy'n perffeithio ein ffydd ni.

sydd tu cefn i mi ac yn canolbwyntio fy holl egni ar beth sydd o mlaen i. Fel taswn i mewn ras, dw i'n rhedeg at y llinell derfyn gyda'r bwriad o ennill! Dw i am ennill y wobr sydd gan Dduw ar ein cyfer ni. Ei alwad i'r nefoedd o achos beth wnaeth y Meseia Iesu.'

beibl.net Philippiad 3:12-14

(Os ydych am ail wylïo'r ras a gweld lle'r enillwyd a lle collwyd y ras mae modd i chi wneud hynny ar www.youtube.com)

LAJ